**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 24 Chwefror 2025 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 24 Chwefror 2025 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 3 Mawrth 2025 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Nia Jeffreys
Arweinydd y Cyngor

**PWNC - Siarter i Deuluoedd mewn Profedigaeth trwy Drasiedi Gyhoeddus**

**PENDERFYNIAD**

Arwyddo'r Siarter i Deuluoedd mewn Profedigaeth trwy Drasiedi Cyhoeddus.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Nia Jeffreys, Arweinydd y Cyngor |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad: | Catrin Love<br>Pennaeth Cynorthwyol,<br>Gwasanaethau Corfforaethol |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 24.2.25 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : |  |

**Pwnc : Siarter i Deuluoedd mewn Profedigaeth trwy Drasiedi Gyhoeddus**

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Arwyddo'r Siarter i Deuluoedd mewn Profedigaeth trwy Drasiedi Cyhoeddus.

**Cefndir**

Mae’r Siarter hon yn deillio o waith yr Esgob James Jones, sef cyn-Esgob Lerpwl, wedi iddo gael ei gomisiynu gan Swyddfa Gartref y DU yn dilyn ail gwest Hillsborough yn 2016, i gynnal adolygiad o brofiad y teuluoedd yn dilyn y drychineb.

Yn 2017, fe gyflwynodd yr Esgob James ei argymhellion i Senedd y DU mewn adroddiad o dan y teitl ‘*The patronising disposition of unaccounable power.’*

O fewn yr adroddiad, mae’r Esgob James yn nodi ei gasgliadau fod trychineb Hillsborough, yr ôl effaith, a bron i chwarter canrif o frwydr i gael eu clywed, wedi cael effaith niweidiol ar lesiant meddyliol a chorfforol y teuluoedd oedd wedi dioddef profedigaeth. Mae’r hyn y mae’r adroddiad yn gyfeirio ato fel gwarediad nawddogol (*patronising disposition*) yn cyfeirio’n benodol at ‘*feddylfryd diwylliannol o fewn sefydliadau sy’n diffinio sut maent, a phobl oddi fewn iddynt, yn ymddwyn*.’ [1] Un o nodweddion craidd y diwylliant hynny yw ‘*blaenoriaeth reddfol’* i enw da sefydliad tros hawl dinesydd i ddisgwyl i bobl gael eu dwyn i gyfrif am ei gweithredoedd.

Roedd creu'r Siarter yn un o nifer o argymhellion o fewn adroddiad yr Esgob James. Bellach, caiff pob sefydliad cyhoeddus eu hannog i'w harwyddo, a llawer eisoes wedi gwneud hynny. Gellir gweld y Siarter ei hun ar drydedd dudalen yr adroddiad hon. Yn ei hanfod, cyfres o 6 datganiad ydyw. Mae pob datganiad yn ymwneud â thryloywder, a gweithredu yn niddordeb gorau'r cyhoedd, er mwyn osgoi poen a dioddefaint estynedig i'r teuleuoedd mewn unrhyw drasiedi gyhoeddus megis Hillsborough, neu Grenfell yn y dyfodol.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad:**

Caiff pob sefydliad cyhoeddus yn y DU eu hannog i arwyddo'r Siarter hon er mwyn ymateb i argymhellion o fewn adroddiad yr Esgob James. Mae llawer o'n partneriaid yn y sector gyhoeddus yng Nghymru eisoes wedi ei harwyddo, gyda gwaith yn digwydd trwy Fforymau Cydnerth Cymru i gael pob sefydliad perthnasol i wneud gyda'r nôd o gael 'Un Siarter i Gymru' ar draws y sector gyhoeddus.

Mae dau ddigwyddiad traws-Cymru wedi eu cynnal hyd yma o dan Arweiniad Heddlu De Cymru er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Siarter ymysg Uwch Swyddogion Awdurdodau Cyhoeddus. Roedd y digwyddiad cyntaf yn gosod y cefndir trwy gyflwyniad gan yr Esgob James ei hun, a'r ail ddigwyddiad yn clywed profiadau teuluoedd sydd wedi dioddef profedigaeth yn nhrychinebau Hillsborough, Aberfan, a Grenfell yn uniongyrchol. Mae dymuniad i weld pob Awdurdod wedi arwyddo'r Siarter erbyn Gwanwyn 2025. Mae sawl sefydliad cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, pob un o Luoedd yr Heddlu, a rhai Cynghorau megis Cyngor Ceredigion eisoes wedi gwneud hynny, a sawl Cyngor arall wedi mynegi'r bwriad i wneud hynny.

I adlewyrchu'r ymdrech i gael pob sefydliad i arwyddo o fewn yr amserlen uchod, bydd Seremoni gyhoeddus yn cael ei chynnal Fis Mawrth 2025 ym Merthyr i nodi'r digwyddiad hanesyddol o sefydliadau cyhoeddus ar draws Cymru yn arwyddo'r Siarter. Byddai arwyddo cyn hynny yn galluogi Cyngor Gwynedd i gael ei gydnabod yn y digwyddiad hwnnw fel sefydliad sydd wedi arwyddo'r Siarter.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Trwy arwyddo'r Siarter, mae'r Cyngor yn ymateb i'r cais i bob sefydliad cyhoeddus fod hyn gwneud hynny, a thrwy wneud, yn ymrwymo'n gyhoeddus i ddysgu gwersi o drasiedïau megis Hillsborough a Grenfell a'u hôl effaith. Mae hyn fel nad yw persbectif teuleuoedd sy'n galaru yn cael ei golli gan sefydliadau cyhoeddus yn y ffordd y maent yn ymateb, a bod teuleuoedd yn cael eu trin gyda gofal a thrugaredd.

Mae hefyd yn ymrwymiad i fod yn ymateb mewn dull agored a thryloyw gan roi diddordeb y cyhoedd yn flaenoriaeth uwchlaw dim arall.

Atodiad: *Siarter i deuluoedd sy'n dioddef profedigaeth drwy drasiedi cyhoeddus*

(1) The patronising disposition of unaccountable power: A report to ensure the pain and suffering of the Hillsborough families is not repeated,' The Right Reverend James Jones KBE, Her Majesty's Stationary Office.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**

Prif Swyddog Cyllid

'Gallaf gadarnhau fod yr Adran Gyllid wedi trafod oblygiadau arwyddo'r Siarter gyda'n hyswirwyr ac rwyf yn fodlon nad oes rhwystr o safbwynt yswiriant. Nid yw'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiadau ariannol. Rwyf felly'n croesawu'r Siarter a nid oes gennyf wrthwynebiad i'w arwyddo.'

Swyddog Monitro:

'Bwriad y Siarter yw mabwysiadu egwyddorion cyffredinol ynglŷn a'r modd y mae cyrff cyhoeddus yn ymateb ac ymdrin a chanlyniadau y digwyddiadau mwyaf difrifol. Mae'n ymrwymiad i ymddygiadau sydd yn adeiladau ar brofiad a gwersi anodd y gorffennol ac wedi ei anelu at beidio eu hail adrodd. Yn amlwg ni ellir deddfu yn fanwl ar gyfer yr ymateb i ddigwyddiadau o'r natur yma. Bydd y Siarter yn gweithio o fewn cyd destun prosesau cyfreithiol ac ymchwilio fyddai yn deillio. Mae gan y rhain eu gofynion a threfniadau eu hunain fyddai yn weithredol mewn sefyllfa o'r fath. Fodd bynnag rwy'n fodlon nad oes llyffethair cyfreithiol i ymrwymo y Cyngor i' Siarter. '

Aelod/au Lleol –

# Siarter ar gyfer Teuleuoedd sydd wedi dioddef Profedigaeth trwy Drasiedi Cyhoeddus

Wrth fabwysiadu'r Siarter hon, rwyf yn ymrwymo i sicrhau bod Cyngor Gwynedd yn dysgu gwersi trychineb Hillsborough a'i ganlyniadau, fel nad yw safbwynt y teuluoedd mewn profedigaeth yn cael ei golli.

Rwyf yn ymrwymo i Gyngor Gwynedd ddod yn sefydliad sy'n mabwysiadu'r ewyddorion isod, ac yn gwneud pob ymdrech i:

1. Pe byddai trychineb cyhoeddus, gefnogi gweithredu cynlluniau argyfwng a dosbarthu adnoddau i achub dioddefwyr, i gefnogi'r rhai mewn profedigaeth ac i ddiogelu'r rhai sy'n agored i niwed.

2. Osod budd y cyhoedd uwchlaw ein henw da ein hunain.

3. Ymdrin â dulliau craffu cyhoeddus - gan gynnwys ymchwiliadau a chwestau cyhoeddus - mewn modd didwyll, agored, gonest a thryloyw, gan ddatgelu dogfennau, deunyddiau a ffeithiau perthnasol yn llawn. Ein hamcan yw cynorthwyo wrth chwilio am y gwirionedd. Rydym yn derbyn y dylem ddysgu o ganfyddiadau craffu allanol ac o gamgymeriadau'r gorffennol.

4. Osgoi ceisio amddiffyn yr hyn na ellir ei amddiffyn, neu ddiystyrru neu ddifrïo'r rhai hynny a allai fod wedi dioddef yn sgil ein diffyg ni.

5. Sicrhau bod pob aelod o staff yn trin aelodau o'r cyhoedd, a'i gilydd gyda pharch a chwrteisi. Lle rydym yn ddiffygiol, dylem ymddiheuro'n ddidwyll ac yn ddiffuant.

6. Gydnabod ein bod yn atebol ac yn agored i gael ein herio. Byddwn yn sicrhau bod prosesau mewn lle i ganiatáu i'r cyhoedd ein dal i gyfrif am y gwaith rydym yn ei gyflawni ac am y modd yr ydym yn ei gyflawni. Nid ydym trwy wybod yn camarwain y cyhoedd na'r cyfryngau.

Arwyddwyd: